

Ymateb i'r Ymgynghoriad - Strategaeth Addysg Uwch ddrafft CCAUC hyd at 2026



Y Brifysgol Agored yng Nghymru

1. Sefydlwyd Y Brifysgol Agored yn 1969 a chofrestrodd y myfyrwyr cyntaf yn 1971. Mae'n arweinydd byd-eang o ran cynnig cyfleoedd dysgu o bell hyblyg ac arloesol ar lefel addysg uwch. Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o safon uchel i bawb sy'n dymuno cyflawni eu huchelgais a gwireddu eu potensial.
2. Mae dros 7,000 o fyfyrwyr dros Gymru gyfan yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac maent wedi'u cofrestru ar oddeutu 10,000 o fodiwlau. Mae myfyrwyr Y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau Cynulliad Cymru a ni yw darparwr addysg uwch israddedig rhan amser mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae bron dri o bob pedwar o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth tra eu bod yn astudio a chyda pholisi derbyniadau agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn dod atom heb gymwysterau mynediad safonol i brifysgol.
3. Fel arweinydd byd-eang ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar y llwyfan dysgu am ddim ar-lein [OpenLearn](#) (gan gynnwys llawer o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â Chymru a'n llwyfan Cymraeg [OpenLearn Cymru](#)) a chynnwys sylweddol ar YouTube ac ar iTunesU lle mae ein deunydd wedi cael ei lawrlwytho dros 70 miliwn o weithiau.

Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

4. Mae'n bleser gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru ymateb i strategaeth addysg uwch ddrafft CCAUC hyd at 2026. Nodwn mai strategaeth ddrafft ydyw i'w chyflwyno i'r Llywodraeth i weithio arni ymhellach a'i diwygio o bosibl. Yn sgil cyhoeddi argymhellion terfynol Adolygiad Diamond, newidiadau sylweddol i'r system AU yn Lloegr, ac argymhellion adolygiad Hazelkorn, mae hwn yn gyfnod tyngedfennol i addysg uwch yng Nghymru. Caiff y cyd-destun gwleidyddol ehangach, gan gynnwys y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, effaith sylweddol ar ddyfodol SAUau a myfyrwyr yng Nghymru a thu hwnt.
5. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cydnabod yr angen i sicrhau bod sefydliadau yn cael cymorth i gyflawni eu blaenoriaethau nhw a rhai Llywodraeth Cymru, tra hefyd yn cynnal ymreolaeth sefydliadol a gweithredu fel rhan o system AU y DU a thu hwnt. Bydd strategaeth addysg uwch deng mlynedd o reidrydd yn flaengar ac yn lefel uchel, gan geisio rhagweld anghenion a thueddiadau'r dyfodol ond rhaid iddi hefyd gynnig fframwaith i sefydliadau a myfyrwyr lwyddo. Cydnabyddwn fod y strategaeth yn canolbwyntio ar y 'beth' yn hytrach na'r 'sut' ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu â CCAUC ac eraill ymhellach er mwyn ystyried ein rôl yn y broses o gyflawni'r strategaeth unwaith y cytunir arni. Isod cynigiwn ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad a rhai sylwadau cyffredinol a fydd, gobeithio, o gymorth wrth lunio'r strategaeth derfynol a'i rhoi ar waith.

Oes unrhyw feysydd allweddol o alw posib wedi'u colli (rhowch dystiolaeth i gefnogi eich awgrym os gwelwch yn dda)?

6. Mae sawl mantais i lunio strategaeth deng mlynedd gan ddefnyddio Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith. Ond mae hefyd yn gyfyngedig heb fod angen. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gymwys i CCAUC ond nid i brifysgolion yn unigol. Mae rheswm da dros hyn gan fod egwyddor ymreolaeth sefydliadol yn bwysig. Fel mae adroddiad Diamond yn ei haeru, dylai addysg uwch gael ei hystyried 'o fudd i'r cyhoedd', ond caiff ei darparu gan gyrff annibynnol â dibenion elusennol nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus fel y'i diffinnir yn gul. Mae hyn yn un o rinweddau system AU Cymru, yn hytrach nag unrhyw fath o wendid, a dylai'r gwaith o gynnal yr agwedd hanfodol hon ar addysg uwch yng Nghymru gael cryn sylw yn y strategaeth.
7. Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol lawer o gryfderau, gan gynnwys y dangosyddion amrywiol a nodir gan CCAUC ar ddiwedd y ddogfen strategaeth ddrafft. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn rhoi digon o sylw i addysg fel rhan allweddol o ddiogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol – ac yn arbennig addysg uwch. Er enghraifft, mae dangosydd 35 yn cyfeirio at ganran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau a diwylliant. Fodd bynnag, nid oes dangosydd ar gyfer canran y bobl sy'n achub ar gyfleoedd dysgu gydol oes nac yn ailhyfforddi yn ystod eu bywyd gwaith - er y nodwn y cyfeirir at y math hwn o ddarpariaeth yn y strategaeth ddrafft (tudalennau 20 ac 21). Ar lefel fwy sylfaenol, nid yw'r Ddeddf yn nodi faint o raddedigion y dymunir eu gweld yng Nghymru yn y dyfodol.
8. Yn yr un modd, gyda'r Ddeddf yn canolbwyntio'n bennaf ar yr amgylchedd, ni roddir digon o sylw i rôl AU ym maes datblygu economaidd drwy ddatblygiad sgiliau lefel uwch, a gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth. Mae angen i hyn fod wrth wraidd unrhyw strategaeth AU.
9. Nid ystyrir gweithgareddau ymchwil, gan gynnwys ymchwil 'awyr las', yn ddigonol. Mae'r sylw a roddir iddi ar dudalennau 7 ac 8 yn rhy gwta ac mae'n gyfyngedig i'w rôl bosibl o fewn yr economi a'i chysylltiadau â diwydiant. Ceir mathau eraill o effaith, y bydd rhai ohonynt yn gymwys y tu hwnt i Gymru.
10. Yn ôl y strategaeth ddrafft, nid yw datblygiadau o fewn y DU a ledled y byd yn effeithio ar AU yng Nghymru. Yn arbennig, mae angen ymdrin â'r cysylltiad agos rhwng AU yng Nghymru a'r sector yn Lloegr. Yn gysylltiedig â hyn, dylai unrhyw strategaeth fel hon gyfeirio at fygythiadau a risgiau – nid lleiaf o ran cystadleuaeth, boed hynny drwy law SAUau eraill yn y DU (ac yn fyd-eang) neu fygythiadau yn sgil y twf mewn darparwyr preifat.
11. Ochr arall hyn yw bod cydweithredu â SAUau ledled y DU ac yn rhyngwladol yn cynnig cyfle, ac mae angen tanlinellu hyn yn y strategaeth ddrafft.
12. Hefyd, ceir tueddiadau cynyddol mewn AU sydd naill ai ddim yn cael eu nodi neu nid ymhelaethir arnynt yn y strategaeth ddrafft. Un enghraifft yw rôl y we a'r cyfryngau cymdeithasol fel rhwystr ac ysgogydd. Maent yn peri heriau i ddulliau darparu presennol ac – mewn cyd-destun ehangach – i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei llunio a'i rhannu mewn cymdeithas fodern a ledled y byd. Roeddem yn synnu nad oedd y strategaeth ddrafft yn crybwyll y twf mewn Adnoddau Addysgol Agored na rôl bosibl Cysiau Ar-lein Enfawr Agored (MOOCau) yn y dyfodol.

13. Mae'r rhain, a datblygiadau eraill, yn peri cwestiynau pwysig i setiau presennol o gymwysterau. Ar lefel is na gradd, mae'r ffiniau rhwng AU ac AB yn dod yn llai amlwg wrth i brentisiaethau lefel uwch ddatblygu. Ond mewn ystyr ehangach, gall y galw gan gyflogwyr a chyrrff proffesiynol, a newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rhannu a'i defnyddio, arwain at newid y syniad o 'raddio'.
14. Mae'r rhain yn dueddiadau tymor hwy y dylid eu trafod mewn strategaeth deng mlynedd, ynghyd â chyfeirio at rywfaint o'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth ar dueddiadau tymor hwy ar gyfer AU. Mae'r cyfeiriadau a geir yn y strategaeth ddrafft, sy'n nodi dogfennau Llywodraeth Cymru neu ddogfennau sy'n gysylltiedig â Chymru yn bennaf, yn arwain at roi'r strategaeth mewn sefyllfa a allai gael ei hystyried yn ynysol i sector a set o weithgareddau sydd â chwmpas rhyngwladol.
15. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn falch o weld bod y strategaeth ddrafft yn cynnal ac yn gwella'r syniad o gynnig addysg uwch i bawb, waeth beth fo'u hoedran. Croesawn y ffaith bod dysgu hyblyg yn cael ei grybwyll mewn manau amrywiol drwy gydol y strategaeth ac nad ystyrir ei fod yn weithgaredd ar wahân. Mae'r fath brif-ffrydio o ddulliau darparu hyblyg ac amrywiol yn gam cadarnhaol iawn tuag at system AU gynaliadwy sy'n addas at y diben dros y 10 mlynedd nesaf. Byddem yn croesawu mwy o bwyslais penodol ar ailsgilio oedolion drwy'r ddarpariaeth hyblyg hon, gan greu'r cysylltiad pwysig rhwng anghenion economi Cymru a'r hyn y gall ac y dylai AU ei gyflawni. Fel yr amlinellir yn y strategaeth ddrafft, ni all anghenion economaidd Cymru gael eu diwallu heb flaenoriaethu'r broses o ddatblygu sgiliau newydd ond rhaid i hyn hefyd gynnwys uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu presennol. Mae dulliau gweithredu hyblyg fel cyrsiau byr, AU ran-amser, dysgu seiliedig ar waith a'r gallu i drosglwyddo credyd rhwng darparwyr yn hanfodol i'r agenda hon.
16. Hefyd, credwn y dylai'r strategaeth roi mwy o gydnabyddiaeth i'r ffaith bod a wnelo gwneud addysg uwch yn fwy agored drwy opsiynau hyblyg â chreu 'Cymru lewyrchus' yn ogystal â 'Chymru gyfartal'. Mae angen i feysydd fel rhyw, a ystyriwyd yn flaenorol yn faterion cydraddoldeb yn bennaf, gael eu hystyried fel rhan o'n strategaeth economaidd.
17. Mae'r strategaeth yn edrych i'r dyfodol ddeng mlynedd o nawr ac yn ystyried newidiadau i'r boblogaeth, anghenion o ran sgiliau, y galw am swyddi a datblygiadau technolegol o ran *beth* fydd angen i AU ei gyflawni. Hoffai'r Brifysgol Agored yng Nghymru weld y strategaeth yn canolbwyntio'n fwy ar *sut* y gallai AU gyflawni dros y degawd i ddod. Dylai'r strategaeth ddadansoddi a pharatoi sefydliadau ar gyfer sut y gallai fod angen darparu AU mewn ffyrdd mwy arloesol a hyblyg wrth i dechnoleg barhau i gynnig cyfleoedd newydd a chystadleuaeth newydd. Bydd myfyrwyr 2026 yn mynnu mwy o ran y ffordd y caiff eu cyrsiau eu cyflwyno a pha mor hygyrch yw gwybodaeth iddynt. Mae cryn botensial yma, yn enwedig mewn gwlad fechan a sionc fel Cymru, i roi cynnig ar bethau newydd a datblygu ein haddysgeg gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Mae'r Brifysgol Agored yn arweinydd rhyngwladol yn y maes hwn a byddai'n awyddus i gefnogi'r gwaith hwn ond credwn fod angen ei gydnabod yn fwy yn y strategaeth.
18. Roeddem yn synnu nad oedd unrhyw gyfeiriad at yr her ddiweddar a osodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ym maes ymgysylltu dinesig a diwylliannol, nac unrhyw drafodaeth amdani. Mae'r her hon, sy'n defnyddio syniad UDA o SAUau fel 'gwarchodiaid lle' i dynnu sylw at y materion ehangach, yn cydweddu'n dda â llawer o ddangosyddion y Ddeddf a'r syniad o 'gymunedau cydlynus'. Mae'n debyg pan gaiff 'sut' y strategaeth ei ddatblygu yn y maes hwn, y bydd angen datblygu mesurau a dangosyddion.

19. Ar dudalen 22 nodir 'mae angen cefnogi'r addysgu am ddiwylliant a hanes Cymru'. Cytunwn â hyn. Gellid bod wedi defnyddio'r Ddeddf yn y maes hwn i ategu'r rhesymeg. Fel mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru wedi awgrymu yn ei dadansoddiad o'r angen am astudiaethau o Gymru, wrth wraidd y gwaith o gyflawni'r wyth nod llesiant, a geir yn y Ddeddf, mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth pobl o'r hyn mae'n ei olygu i fyw mewn Cymru fodern;¹ i deimlo cysylltiad â Chymru; ac i allu cyfranogi mewn cymdeithas yng Nghymru. Yn y maes hwn, dylai'r strategaeth ddrafft fabwysiadu diffiniad ehangach CDdC o'r maes, gan fynd ag ef y tu hwnt i farn ddiwylliannol sy'n gul ac yn draddodiadol. Ar wefan CDdC diffinnir astudiaethau o Gymru fel a ganlyn: 'The inclusive term "Wales Studies" embraces the wide range of new and existing multidisciplinary subjects that captures the knowledge and understanding of Wales covering history, sciences, politics, sociology, literature, archaeology, health, education, Welsh language, Welsh Studies, technology, arts, music and natural environments.'
20. Mae'r cylchlythyr sy'n ategu'r strategaeth ddrafft yn nodi bod y strategaeth yn "gynhwysol o ran addysg bellach ond heb fod yn benodol yn ei sylw." Er ein bod yn deall y dyhead i osgoi rhagdybio unrhyw newidiadau a all ddeillio o adolygiad Hazelkorn, nid ymddengys fod hyn yn ddiogel iawn at y dyfodol. O ystyried y ffocws ar ddysgu hyblyg, cydweithredu, a llwybrau i mewn ac allan o AU, ymddengys yn synhwyrol bod yn fwy penodol o ran y cysylltiadau rhwng AU ac AB ac i'r strategaeth gwmpasu'r sector dysgu ôl-orfodol cyfan.
21. Mae rhyngwladoleiddio yn nodwedd yn y strategaeth ddrafft ac mae ganddo ran bwysig i'w chwarae wrth i SAUau ystyried eu dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun polisi ar ôl y refferendwm. Gan ystyried hynny, dylai'r strategaeth roi mwy o sylw i'r galw gan fyfyrwyr rhyngwladol a goblygiadau Brexit. Gallai'r strategaeth ddrafft hefyd gyfeirio'n fwy at gymaryddion rhyngwladol a systemau a dulliau gweithredu AU eraill.
22. Mae'r strategaeth ddrafft yn gwneud nifer o gyfeiriadau at sicrhau bod graddedigion a chyflogwyr yn deall sgiliau lefel uwch a sut y gellir eu defnyddio yn y gweithle (t.9). Teimlwn y dylai'r strategaeth fod yn cynnal dadansoddiad mwy cadarn o'r sgiliau y bydd eu hangen ar raddedigion ymhen deng mlynedd er mwyn asesu'r galw yn well. Mae angen i sefydliadau ymrwymo i ddeall a darparu sgiliau caled a meddal priodol i raddedigion, yn enwedig o fewn cyd-destun ariannu sy'n golygu mai'r unigolyn sy'n gyfrifol am dalu cost astudio fwyfwy.
23. Mae polisi Addysg Uwch wedi'i ddatganoli ac mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran AU yng Nghymru yn wahanol mewn rhai ffyrdd pwysig i un Llywodraeth y DU. Mae SAUau yng Nghymru yn awyddus i ymateb yn gadarnhaol i bolisi Llywodraeth Cymru ond mae hefyd yn bwysig cydnabod eu bod yn gweithredu o fewn system AU ar gyfer y DU gyfan ac, yn achos recriwtio israddedigion, mae cysylltiad agos rhwng y system yng Nghymru a'r system yn Lloegr. Mae llif myfyrwyr ar draws y ffin ac nid yw staff na sefydliadau yn rhydd rhag effaith penderfyniadau a wneir yn Whitehall. Dylai'r strategaeth ddrafft roi mwy o sylw i hyn a chydnabod sefyllfa SAUau yng Nghymru o fewn system AU ehangach y DU.

Oes unrhyw fylchau o ran sut mae'r system addysg uwch angen ymateb i'r galw sydd wedi'i ddatgan?

¹ <https://www.learnedsociety.wales/>

24. Mae gan ddysgu o bell y potensial i wneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy at gefnogi hyblygrwydd ac ehangu mynediad i addysg uwch. Dylid nodi ymrwymiad cryfach i gefnogi a gwella dysgu o bell a darpariaeth AU ddigidol (gan gynnwys MOOCau a chyrsgiau byr) yn y strategaeth – nid lleiaf gan fod y datblygiadau hyn yn gyfystyr â bygythiad cystadleuol i AU a'i sefydliadau yng Nghymru. Mae hyn yn hynod berthnasol gan fod y strategaeth yn edrych tua 2026; bydd yn hanfodol i SAUau, gyda chymorth gan CCAUC, ystyried tueddiadau yn y dyfodol o ran darparu AU. Drwy ddatblygu dysgu o bell a chyrsgiau a llwyfannau dysgu digidol, caiff mwy o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd ac amgylchiadau achub ar gyfleoedd AU, a gallai hefyd gyfrannu at lai o ôl-troed carbon yn y sector cyfan.
25. Credwn y dylai'r strategaeth gynnwys mwy o gyfeiriadau at wahanol fathau o ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gall sefydliadau ymateb i'r galw, yn gymdeithasol ac yn economaidd, am addysg uwch hyblyg. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn croesawu'r ymrwymiad a geir yn y strategaeth ddrafft i ddysgu oedolion a dulliau gweithredu hyblyg (fel ar dudalennau 8/9 a 17/18) ond hoffem weld mwy o bwyslais ar y rhain, gan gynnwys cyfeiriadau penodol at astudio modiwlaidd a gallu symud o un sefydliad i'r llall yn hawdd. Gall hefyd fod angen i anghenion gwahanol myfyrwyr sy'n dewis astudio'n rhan-amser neu mewn ffyrdd mwy hyblyg fod yn fwy blaenllaw yn y strategaeth. Bydd angen i'r myfyrwyr hyn gael gwahanol fathau o gymorth gan eu sefydliadau a'r system AU ehangach. Dylai'r strategaeth newydd adlewyrchu hyn ond bydd ailffocysu'r system AU yn un sy'n rhoi'r myfyriwr unigol yn gyntaf a'r dull o astudio yn ail yn gofyn am newid sylweddol o ran y ffordd y caiff addysg uwch ei darparu a'i chefnogi.
26. Yn benodol, mewn perthynas â datblygu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yng Nghymru (t.15), mae gan addysg uwch ran-amser ran sylweddol i'w chwarae wrth ddatblygu a chefnogi'r gweithlu addysgu. Felly hefyd yn y meysydd gweithlu â blaenoriaeth eraill a nodir yn y strategaeth fel iechyd a gofal cymdeithasol, bydd y defnydd o ddarpariaeth hyblyg i uwchsgilio staff presennol a galluogi cynifer o bobl â phosibl i ddilyn gyrfa yn y meysydd hyn yn hanfodol.
27. Er mwyn hyrwyddo'r gallu i uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu, bydd angen ailystyried polisi AU ehangach a strwythurau ariannu fel y dyfarniad Cymhwyster Cyfwerth neu Is presennol. Dylai gweithredu argymhellion Adolygiad Diamond helpu i ymdrin â'r materion hyn ond bydd angen i ymrwymiad parhaus i ddatblygu system ariannu a chymorth sy'n galluogi dysgu gydol oes fod yn rhan allweddol o'r strategaeth newydd.
28. Mae'r strategaeth yn crybwyll amrywiaeth myfyrwyr, a'r boblogaeth myfyrwyr bosibl yn y dyfodol, sydd i'w groesawu. Fodd bynnag, prin yw'r sôn am amrywiaeth Sefydliadau AU eu hunain ac ni chydabyddir y gall fod ganddynt gryfderau a meysydd arbenigol gwahanol. Mae gan sefydliadau AU Cymru hanes cadarn o gydweithredu a phartneriaethau (o fewn y sector a thu hwnt) ond gallai'r strategaeth ddweud mwy am y cyfleoedd i sefydliadau arbenigo ymhellach, gyda buddsoddiad cyhoeddus lle mae'n sicrhau'r gwerth mwyaf, er mwyn cyflawni amcanion penodol (fel sydd eisoes yn wir wrth ddyrannu cyllid QR).
29. Yn yr adran '*Cymru sy'n Fwy Cyfartal*', tra'n cydnabod natur strategol, lefel uchel y ddogfen hon, gallai fod cysylltiadau cliriach ag agenda gwrth-dlodi Llywodraeth Cymru a'r hyn sy'n dilyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r cysylltiadau hyn yn hanfodol wrth ehangu mynediad a sicrhau synergedd rhwng meysydd â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau cymunedol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn ehangu mynediad i AU. Rydym yn awyddus i

adeiladu ar y math hwn o waith a hoffem ei weld yn cael sylw blaenllaw yn y strategaeth newydd.

30. Yn yr adran '*Cymru o gymunedau cydlynus*', ceir ffocws cadarn a groesewir ar rôl ddinesig sefydliadau a rôl prifysgolion yn eu cymunedau. Ffocws yr adran hon, yn ddealladwy efallai, yw'r cysylltiad daearyddol rhwng sefydliad a'i ardal a'i gymuned gyfagos, ond dylid hefyd ystyried yr hyn y gall ac y dylai sefydliadau ei gynnig o ran ymgysylltu dinesig y tu hwnt i'w milltir sgwâr. Fel sefydliad sy'n gweithredu ledled Cymru, byddai'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn awyddus i weld ffocws ar botensial arloesi digidol er mwyn cysylltu a datblygu cymunedau ac ystyriaeth o'r ffyrdd annhraddodiadol o ddwyn pobl ynghyd.

Ydi'r datganiadau o fwriad yn briodol?

31. Mae'r bwriadau strategol yn ymddangos yn briodol ar y cyfan, ond mae fformat y strategaeth ddrafft yn golygu, er gwaethaf ceisio cynnig llwybr lefel uchel, gyda'i gilydd mae'r rhestrau o fwriadau strategol yn eithaf helaeth. Mae cysoni'r strategaeth a'r bwriadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gam pwysig tuag at uno meysydd â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru a sicrhau bod darparwyr AU yn deall goblygiadau a chyfluoedd y Ddeddf. Fodd bynnag, ymddengys fod hyn wedi arwain at ddyblygu mewn rhai meysydd a chyfuno rhai bwriadau lefel uchel ag eraill sy'n ymddangos yn fwy gweithredol. Tra'n cynnal cysondeb â'r Ddeddf, a'i hysbryd, gall fod yn fwy effeithlon cyflwyno'r strategaeth derfynol mewn ffordd sy'n cyflwyno set lefel uwch a llai o faint o fwriadau strategol mewn ffordd gydlynus.
32. Ymddengys mai prin yw'r pwyslais ar arloesedd neu newid yn y datganiadau o fwriad. Maent i gyd yn nodau gwerth chweil ond mae rhai mor gyffredinol eu bod yn peri'r risg o olygu dim os na chânt fwy o ddyfnder. Byddai llai o ddatganiadau, ond rhai mwy arloesol a blaengar, yn fwy priodol i strategaeth deng mlynedd.

Oes unrhyw ddatganiadau o fwriad y dylid eu hychwanegu neu eu dileu?

33. Dylid cyfeirio'n fwy at hyblygrwydd o ran opsiynau astudio, darpariaeth cyrsiau, mathau o gyrsiau, llwybrau i mewn ac allan o AU a'r gallu i newid darparwyr.
34. Dylid cynnwys mwy ar feysydd datblygu busnes ac economaidd presennol ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn ddiogel yn y dyfodol.
35. Dylai'r datganiadau o fwriad, neu fannau eraill yn y strategaeth, gyfeirio'n benodol at strategaethau â blaenoriaeth eraill Llywodraeth Cymru fel y rhai sy'n ymwneud â sgiliau, datblygu economaidd, y Gymraeg a gwrth-dlodi.
36. Fel y nodir uchod, ceir dyblygu rhwng datganiadau a ddylai alluogi cyfuno mewn rhai meysydd. Gallai'r rhestr derfynol fod yn fwy strategol a chanolbwyntio'n fwy ar edrych i'r dyfodol. Mewn rhai achosion, ymddengys y gall datganiadau fod wedi'u cynnwys er mwyn cyflawni amcan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac er bod y rhain yn feysydd pwysig i SAUau eu hystyried, efallai nad ydynt yn briodol mewn rhestr lefel uchel o ddatganiadau o fwriad. Er enghraifft, "*Anogaeth i gyflogaion i gael ffyrdd o fyw iach...*" (t.14)

Oes unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, iaith Gymraeg neu gynaliadwyedd perthnasol i'r strategaeth rydych chi wedi'u canfod?

37. Er mwyn sicrhau bod addysg uwch yn agored ac yn hygyrch i bawb, mae angen canolbwyntio ar wybodaeth, cyngor a chanllawiau priodol ar ddewis cyrsiau a llwybrau – mae hyn yr un mor gymwys mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai AU. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod myfyrwyr yn barod ar gyfer AU a bod y rhai sydd angen rhagor o gymorth cyn dechrau mewn AU yn cael yr opsiwn i ddilyn modiwlau mynediad addas, cyrsiau paratoi, a chael cyngor a chymorth.
38. Gallai potensial dysgu ar-lein i gefnogi ffyrdd newydd ac arloesol o gyflwyno cyrsiau, gan gynnwys yn Gymraeg, gael effaith bellgyrhaeddol wrth agor addysg uwch i fyny.
39. Mae'r ffocws cryf ar ddysgu oedolion a dysgu gydol oes drwy gydol y strategaeth i'w groesawu, fel mae'r gydnabyddiaeth bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i ferched a'r rheini o grwpiau difreintiedig ac y gall hefyd gynnwys dynion ifanc a dynion cyflogedig ond a hoffai uwchsgilio neu ailsgilio.

Oes gennyh chi unrhyw sylwadau eraill ar y strategaeth ddrafft?

40. Fel strategaeth deng mlynedd a gyflwynir ar adeg o newid gwleidyddol ac ansicrwydd sylweddol, o fewn yr amgylchedd polisi a chyllid domestig a thu hwnt, dylai dibenion ehangach AU a gweledigaeth ehangach a mwy strategol lywio'r ddogfen hon, os yw i bara deng mlynedd a chynnig y fframwaith cryf sydd ei angen.
41. Dylid sôn yn fwy am natur ryng-gysylltiedig system AU Cymru â'r hyn a geir yng ngweddill y DU, ac effaith bosibl Brexit ar ein sefydliadau a'n myfyrwyr.
42. Credwn y dylai'r strategaeth fod yn fwy blaengar ac ystyried lle Cymru fel darparwr AU byd-eang a chystadleuydd rhyngwladol.
43. Prin y mae'r strategaeth yn crybwyll rôl CCAUC a'r fframwaith rheoleiddio cyfatebol yn y dyfodol. Gwerthfawrogwn na wyddys popeth eto ond byddai'n gwneud synnwyr i'w gynnwys fel rhan o strategaeth deng mlynedd gynaliadwy.
44. Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r strategaeth yn dynn ac er ein bod yn cydnabod bod hyn yn rhannol oherwydd cais Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth, mae'n bwysig sicrhau y gall beth bynnag a gaiff ei greu bara a chynnig fframwaith sy'n gweddu i'r amgylchedd polisi. Gall fod yn fwy priodol aros cyn cyhoeddi'r strategaeth hon pan fydd mwy yn hysbys am weithredu argymhellion adolygiadau Diamond a Hazelkorn. Byddai hyn yn golygu bod modd cynnal ymgynghoriad ehangach gan fod strategaeth deng mlynedd sy'n seiliedig ar feysydd polisi eraill i raddau helaeth yn gofyn am fewnbwn eang, ymgynghori cadarn ac ymgysylltu cryf ymhob rhan o'r sector a thu hwnt.
45. Yn olaf, fel y nodwyd yng nghorff ein hymateb, credwn fod cyfle i newid polisi a darpariaeth AU sy'n rhoi'r myfyriwr unigol (beth bynnag fo'i gefndir a'i amgylchiadau) wrth wraidd y polisi. Gall hyn ei gwneud yn ofynnol i SAUau Cymru a darparwyr addysg ôl-orfodol eraill fanteisio ar eu cryfderau unigol tra hefyd yn gweithio gyda'i gilydd tuag at nodau cyffredin.

Byddai'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen ar CCAUC wrth i'r strategaeth ddatblygu ac edrychwn ymlaen at gyfrannu at ei ddatblygu ymhellach ac yna ei rhoi ar waith.

4 Tachwedd 2016

Cyswllt: Michelle Matheron Ffôn: 029 2026 2708 E-bost: Michelle.Matheron@open.ac.uk

